Rhif Cais: C20/0592/26/DT

Dyddiad Cofrestru: 03-08-2020

Math o Gais: Cais Deiliaid Tŷ

Lleoliad: Monfa, Caeathro, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2SS

Cymuned: Waunfawr

Ward: Waunfawr

Bwriad:

Adeiladu ffenestr bae.

Crynodeb o'r Argymhelliad:

---

1. Disgrifiad:

Cais llawn ar gyfer adeiladu ffenestr bae ar ddrychiad blaen y tŷ. Byddai'r bwriad yn mesur 2.5 medr o hyd a 1 medr o led. Fe'i lleolir ar wyneb y tŷ sy'n wynebu'r ffordd sirol dosbarth 1. Gorchuddir y strwythur gyda gorffeniad i weddu gyda'r tŷ presennol.

Mae'r safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu'r pentref.

Gwasanaethir y safle gan ffordd sirol dosbarth cyntaf.

2. Polisiau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**
PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3 : Dylunio a siapio lle

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4 : Rheoli ardrawiadau cludiant

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10 - Rhagfyr 2018)

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

Dim hanes cynllunio diweddar poerthnasol.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref:	Dim ymateb
Uned Drafnidiaeth:	Dim gwrthwynebiad.

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos ac ni dderbyniwyd ymateb.

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad a mwynderau gweledol

Mae Polisi PCYFF3 yn datgan caniateir cynigion, gan gynnwys estyniadau a newidiadau i adeiladau a strwythurau presennol os ydynt yn cydymffurfio a nifer o feini prawf sy'n cynnwys bod y cynnig yn ychwanegu neu yn gwella cymeriad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran y gosodiad, yr ymddangosiad, y raddfa, yr uchder, y mas a'r driniaeth i'r drychiadau; ei fod yn parchu cyd-destun y safle a'i le yn y dirwedd leol; ei fod yn defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r hyn sydd o'u hamgylch ac yn ymgorffori tirlunio meddal; ei fod yn gwella rhwydwaith cludiant a chyfathrebu diogel ac integredig; eu bod yn cyfyngu rhediad dwr a pherygl risg llifogydd ac atal llygredd; ei fod yn cyflawni dyluniad cynhwysol ac sy'n galluogi mynediad i bawb a'i fod yn helpu creu amgylcheddau iach a bywiog gan ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol.

Mae'r bwriad yn golygu codi ffenestr bae ar ddrychiad blaen y tŷ. Byddai yn weladwy o'r ffodd sirol, fod bynnag, teimlir byddai ei dyluniad yn gweddu gydag edrychiad y tŷ. Bwriedir gorchuddio'r ffenestr mewn defnydd i gydweddu a gorffeniad y tŷ..

Ystyrir bod y bwriad yn gweddu gydag edrychiad a chymeriad yr eiddo. Ni ystyrir y byddai yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol yr ardal nag ar gymeriad yr ardal . I'r perwyl hynny credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi PCYFF 3.CDLl.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

Hysbysebwyd y cais ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Byddai'r ffenestr yn wynebu'r ffordd sirol ac felly yn annhebygol o amharu ar fwynderau trigolion cyfagos.. Yn yr amgylchiadau hynny ni ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisi PCYFF 2.

Materion trafnidiaeth a mynediad

Mae'r bwriad yn golygu codi ffenestr bae.. Nid oes effaith ar barcio na ffordd mynedfa..Derbyniwyd sylwadau gan Uned Trafnidiaeth yn datgan nad oes gwrthwynebiad i'r cais Nid yw'r bwriad yn groes i bolisi TRA 2 a TRA 4 CDLl.

6. Casgliadau:

Wedi rhoddi ystyriaeth lawn i'r polisïau perthnasol ynghyd a materion cynllunio perthnasol ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol.

7. Argymhelliad:

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i:

1 - Rhaid cychwyn ar y datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatâd hwn dim hwyrach na PHUM mlynedd o ddyddiad y caniatâd. The development to which this permission relates shall be begun not later than FIVE years from the date of this permission.

2 - Cwblheir y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar gynllun(iau) a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar 27.07.2020, ac a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais, os nad oes amod(au) sy'n ei diwygio wedi ei gynnwys ar y dyfarniad cynllunio hwn. The development hereby permitted shall be carried out in strict conformity with the details shown on the plan(s) submitted to the Local Planning Authority 27.07.2020, and contained in the form of application and in any other documents accompanying such application unless condition(s) to amend them is/are included on this planning decision notice.

Nodiadau / ***Notes***